# Polisi Cofrestr Genedlaethol Dirymu a Gwrthod Trwyddedau Tacsis (NR3).

## 1. Cefndir

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r ffordd y bydd Cyngor Caerdydd, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn defnyddio'r gallu i gael mynediad at wybodaeth ar Gofrestr Genedlaethol Dirymu a Gwrthod Trwyddedau Tacsis (NR3) a'i defnyddio, sef ffordd y gall awdurdodau trwyddedu rannu manylion am unigolion y mae eu trwydded cerbyd hacni neu gerbyd llogi preifat (CLlP) wedi'i dirymu, neu os gwrthodwyd eu cais am drwydded. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaeth er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod a roddir i'r awdurdod trwyddedu – sef asesu p'un a yw unigolyn yn berson addas a phriodol i fod â thrwydded cerbyd hacni neu CLlP.

Caiff swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu eu cyflogi gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir sy'n gweithio fel rheolwyr data o ran swyddogaethau a gyflawnir ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, sef Cyngor Caerdydd. Ar yr NR3, ceir gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw wrthodiad i gyflwyno trwydded gyrrwr tacsi, neu ddirymiad trwydded gyrrwr. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig mewn cyd-destun cais arall i awdurdod arall am drwydded, gan berson y mae ei drwydded eisoes wedi'i dirymu neu ei wrthod yn y gorffennol.

Drwy gydol y polisi hwn, cyfeirir at 'drwydded gyrrwr tacsi'. Mae'r term cyffredinol hwn yn golygu trwydded yrru cerbyd hacni, trwydded yrru cerbydau llogi preifat a thrwydded gyfunol/ddeuol.

Mae Cyngor Caerdydd wedi cofrestru ar gyfer yr NR3. Mae hyn yn golygu pan fydd cais am drwydded gyrrwr tacsi yn cael ei wrthod, neu os yw trwydded bresennol gyrrwr tacsi yn cael ei dirymu, rhoddir y wybodaeth honno ar y gofrestr.

Bydd y wybodaeth a geir ar yr NR3 yn cynnwys yr hyn a ganlyn yn unig:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant gwladol
- rhif trwydded yrru
- penderfyniad a wnaed

- dyddiad y penderfyniad
- dyddiad y daw y penderfyniad i rym

Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw ar yr NR3 am 25 mlynedd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar systemau'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd data'n cael ei gadw ar y gofrestr honno i helpu'r Awdurdod Trwyddedu i gyflawni ei ddyletswydd statudol, i fod yn fodlon bod person yn addas a phriodol i fod â thrwydded tacsis neu CLlP. Nodir y dyletswyddau hyn yn adrannau 51, 59 a 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; adrannau 13, 16 a 17 o Ddeddf Cerbydau Llogi Preifat (Llundain) 1998; adran 3 o Reoliadau Cerbydau Llogi Preifat (Trwyddedau Gyrwyr CLlP Llundain) 2003; adrannau 25 a 30 o Orchymyn Tacsis Llundain 1934; adrannau 9 ac 19 o Ddeddf Cyngor Dinas Plymouth 1975 ac adran 46 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Yn unol â'r diben hwn, bydd data'n parhau ar y gofrestr am 25 mlynedd.

## 2. Egwyddorion cyffredinol

Pan fydd cais am drwydded gyrrwr newydd yn dod i law, neu gais i adnewyddu trwydded bresennol, bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn chwilio'r NR3. Dim ond swyddog sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r NR3 ac sy'n gweithredu'n unol â'r polisi hwn fydd yn chwilio. Os canfyddir manylion sy'n ymwneud â'r ymgeisydd, bydd cais am fanylion ychwanegol yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod a roddodd y wybodaeth honno ar y gofrestr.

Bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan unrhyw awdurdod arall ynglŷn â chais yn cael ei defnyddio ar gyfer y cais hwnnw, a phenderfynu ar y cais hwnnw yn unig, ac nid at unrhyw ddiben arall. Bydd unrhyw ddata a dderbynnir yn cael ei gadw cyn hired ag sy'n berthnasol er mwyn penderfynu'r cais. Bydd hyn yn cynnwys y cyfnod o brosesu'r cais hwnnw, penderfynu, rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ganlyniad y cais hwnnw, a'r broses apelio.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd data o'r fath yn cael ei gadw am gyfnod ddim hirach na 35 diwrnod o'r dyddiad y bydd yr hysbysiad ysgrifenedig am benderfyniad y cais yn cael ei gyflwyno.

Os cyflwynir apêl i'r llys ynadon, bydd y data'n cael ei gadw nes bod yr apêl honno'n cael ei phenderfynu neu ei chanslo. Pan fydd apêl yn cael ei phennu gan lys ynadon, bydd hawl pellach i apelio i Lys y Goron. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff y data ei gadw am gyfnod ddim hirach na 35 diwrnod o ddyddiad penderfyniad y llys ynadon. Os cyflwynir apêl i Lys y Goron, bydd y data'n cael ei gadw nes bod yr apêl honno'n cael ei phenderfynu neu ei gadael. Os yw'r llys ynadon neu Llys y Goron yn penderfynu'r apêl, mae'n bosibl apelio'r penderfyniad yn unol â'r achos a nodir. Yn yr un modd, ceidw'r data ddim hirach na 35 diwrnod o ddyddiad penderfyniad Llys y Goron (os gwnaethpwyd y penderfyniad gan y llys ynadon, rydym eisoes wedi trafod y cyfnod cadw). Os cyflwynir apêl yn unol â'r achos a nodir, caiff y data ei gadw nes bod yr holl brosesau llys ynghylch yr apêl honno (sy'n cynnwys apeliadau posibl i'r Llys Apeliadau a'r Uchel Lys) wedi'u pennu.

Bydd y data'n cael ei gadw'n ddiogel yn unol â pholisi cyffredinol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gadw data personol yn ddiogel ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, mae gwybodaeth bellach ar gael ar: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/adult_and_community_learning/Get-Back-on-Track/Website-privacy-notice.aspx

Ar ddiwedd y cyfnod cadw, caiff y data ei ddileu a/neu ei ddinistrio yn unol â pholisi cyffredinol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar ddileu a dinistrio data personol.

3. **Chwilio drwy'r NR3 am ymgeiswyr**

Pan gyflwynir cais i Gyngor Caerdydd i gyflwyno trwydded yrru tacsis newydd, neu i adnewyddu trwydded, bydd y Cyngor yn gwirio'r NR3.

Bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn creu a chadw cofnod ysgrifenedig clir o bob chwiliad a gynhelir ar y gofrestr. Bydd hyn yn cynnwys manylion am:

- ddyddiad y chwiliad;
- yr enw neu'r enwau perthnasol;
- rheswm dros y chwiliad (cais newydd neu adnewyddu);
- canlyniadau'r chwiliad; a
- sut ddefnyddiwyd canlyniadau'r chwiliad (bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar y gofrestr yn hwyrach ymlaen).

Ni fydd y cofnod hwn yn cael ei uno ag unrhyw gofnod arall (h.y. wedi'i gyfuno â chofrestr o drwyddedau a gyflwynwyd) a bydd yn cael ei gadw am y cyfnod cadw sef 25 mlynedd.

Os yw Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn dod o hyd i unrhyw wybodaeth gyfatebol (h.y. mae cofnod ar y gofrestr ar gyfer yr un enw a'r manylion adnabod), bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod a roddodd y manylion hynny ar y gofrestr (yr awdurdod cyntaf) i gael rhagor o wybodaeth ar y cofnod hwnnw. Bydd y cais hwnnw hefyd yn cynnwys manylion am bolisi diogelu data'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir o ran defnyddio unrhyw ddata a ganfyddir yn sgil y broses hon.

Bydd y cais hwn yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig yn unol â'r ffurflen yn Atodiad 1 y polisi hwn.

Bydd yn cael ei bostio neu ei e-bostio i gyfeiriad cyswllt yr awdurdod a roddodd y manylion hynny (yr awdurdod cyntaf), y bydd gwybodaeth amdano ar y gofrestr.

## 4. Ymateb i gais am wybodaeth ychwanegol ynghylch cofnod ar y ffurflen NR3

Pan fydd Awdurdod Trwyddedu yn derbyn cais am wybodaeth ychwanegol gan awdurdod arall, bydd cofnod ysgrifenedig clir bod y cais hwnnw wedi'i dderbyn. Ni fydd y cofnod hwn yn cael ei uno ag unrhyw gofnod arall (h.y. wedi'i gyfuno â chofrestr o drwyddedau a gyflwynwyd) a bydd yn cael ei gadw am y cyfnod cadw sef 25 mlynedd.

Yna, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu sut i ymateb i'r cais. Nid yw rhoi gwybodaeth fel ymateb arwynebol i bob cais yn gyfreithlon.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried unrhyw gais dan delerau Deddf Diogelu Data 2018 ac yn ystyried sut bydd yr awdurdod arall (yr ail awdurdod) yn defnyddio'r data, yn storio'r data i osgoi unrhyw ddatgeliad heb awdurdod, cyfnod cadw'r data, a'r dulliau i ddileu neu ddinistrio data ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Disgwylir os yw'r ail awdurdod wedi mabwysiadu polisi tebyg i hyn, dylai fod yn broses eithaf syml.

Os yw'r Awdurdod Trwyddedu'n fodlon bod gweithdrefnau diogelu data'r awdurdod arall (yr 2il awdurdod) yn foddhaol, rhoddir ystyriaeth i ba wybodaeth fydd yn cael ei rhannu. Bydd hyn yn cael ei bennu gan swyddog sydd wedi cael hyfforddiant i gyflawni'r weithred hwn.

Rhaid i unrhyw ddatgeliad gael ei ystyried a bod yn gyfrannol, gan ystyried hawliau'r testun data a swydd a chyfrifoldebau gyrrwr tacsi. Bydd data'n cael ei gadw ar gofrestr NR3 am gyfnod o 25 mlynedd, ond ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n datgelu gwybodaeth ynghylch pob cofnod. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.

Rhennir unrhyw wybodaeth am gollfarnau yn unol â'r polisi hwn dan rhan 2 atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data (DDD) 2018; hynny yw, mae'r prosesu'n angenrheidiol er budd y cyhoedd mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth sy'n ddyletswydd ar y gyfraith oherwydd rheol neu'r gyfraith.

Bydd y swyddog yn cofnodi pa gamau a gymerwyd a pham. Bydd Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn creu a chadw cofnod ysgrifenedig clir o bob penderfyniad a wneir yn sgil cais gan awdurdod arall. Bydd hyn yn cynnwys manylion am:

- dyddiad derbyn y cais
- sut cynhaliwyd yr asesiad effaith diogelu data a'i ganlyniadau
- yr enw neu'r enwau perthnasol
- a ddarparwyd unrhyw wybodaeth
- os cafodd gwybodaeth ei darparu, pam darparwyd y wybodaeth (a manylion am unrhyw gyngor pellach a gafwyd cyn gwneud penderfyniad)
- os na chafodd gwybodaeth ei darparu, pam na ddarparwyd y wybodaeth (a manylion am unrhyw gyngor pellach a gafwyd cyn gwneud penderfyniad) a

• sut a phryd cafodd yr awdurdod a wnaeth y cais wybod am y penderfyniad (ac unrhyw wybodaeth).

Ni fydd y cofnod hwn yn cael ei uno ag unrhyw gofnod arall (h.y. wedi'i gyfuno â chofrestr o drwyddedau a gyflwynwyd) a bydd yn cael ei gadw am y cyfnod cadw sef 25 mlynedd.

### 5. Defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd yn sgil cais i awdurdod arall

Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cael gwybodaeth o ganlyniad i gais sydd wedi'i gyflwyno i awdurdod arall, bydd yn ystyried y wybodaeth honno wrth benderfynu i gyflwyno neu adnewyddu trwydded gyrrwr tacsis. Bydd hyn yn unol â'r broses arferol ar gyfer pennu ceisiadau.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n creu ac yn cadw cofnod ysgrifenedig clir o sut bydd canlyniadau'r chwiliad yn cael eu defnyddio (bydd y wybodaeth hon yn cael ei hychwanegu at y gofrestr uchod).

Gall gwybodaeth a dderbynnir fod ag ystyr sylweddol, ond ni fydd yn sail unigol am unrhyw benderfyniad y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ei wneud mewn cysylltiad â'r cais.

Shared **Regulatory** Services
Gwasanaethau **Rheoliadol** a Rennir

## Atodiad 1 – ffurflen ddatgelu gwybodaeth

Cyflwynir y ffurflen hon yn dilyn chwiliad o Gofrestr Genedlaethol Gwrthod a Dirymu Trwyddedau Tacsis (NR3).

Enw’r awdurdod trwyddedu sy’n gofyn am wybodaeth: ………

Rhif cyfeirnod yr awdurdod sy’n cyflwyno’r cais: ……..

Enw’r awdurdod trwyddedu y ceisir gwybodaeth ganddo: ………

Enw’r unigolyn y mae’r cais yn ei gylch: ……….

Math o benderfyniad y mae’r cais yn ei gylch: Gwrthod / dirymu

Manylion eraill ar gyfer y cofnod hwn: …….

Cyfeiriad: …….

Rhif trwydded yrru: ……

Rhif YG: …….

Rhif cyfeirnod: ……

**Datganiad gan yr awdurdod sy’n cyflwyno’r cais:**

Mae’r awdurdod drwy hyn yn cadarnhau bod y wybodaeth a geisir yn ymwneud ag arfer ei swyddogaeth statudol i sicrhau bod deiliaid trwyddedau tacsis / CLlP yn bobl addas a phriodol, ac felly mae prosesu’r data hwn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd.

Caiff y wybodaeth a roddir isod ei phrosesu, ei defnyddio a’i harbed gan yr awdurdod sy’n delio â’r cais penodol hwn yn unig ac yn unol â’r holl ddata perthnasol a’r gofynion preifatrwydd, fel nodwyd yn flaenorol gan yr awdurdod ar gyfer ymgeiswyr trwyddedau tacsis / CLlP newydd a gyrwyr sydd eisoes â thrwydded, a bydd yn cael ei gadw’n unol â pholisi cadw Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ynghylch darparu gwybodaeth o’r fath.

Er mwyn galluogi’r awdurdod i gynnal asesiad ar ddatgelu, mae manylion polisi’r awdurdod hwn ar ddefnyddio gwybodaeth yn sgil y cais hwn ar y ddolen ganlynol: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/adult_and_community_learning/Get-Back-on-Track/Website-privacy-notice.aspx

Llofnod:

Enw: ……

Swydd: ……

Dyddiad:……

(I’w gwblhau gan yr awdurdod sy’n darparu) Gwybodaeth bellach i gefnogi’r penderfyniad a nodir ar NR3 ynglŷn â’r unigolyn uchod

**Datganiad gan yr awdurdod sy’n darparu**

Mae’r awdurdod drwy hyn yn cadarnhau ei fod wedi cynnal asesiad.

Mae hefyd yn cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir, ac wedi’i darparu ar ôl ystyriaeth fanwl gan yr awdurdod ynghylch cyfranoldeb a chyfreithlondeb datgelu’r wybodaeth. Mae’r wybodaeth yn adlewyrchu’r sail pam wnaethpwyd y penderfyniad a nodwyd ar Gofrestr Genedlaethol Gwrthod a Dirymu Trwyddedau Tacsis. Os yw’r awdurdod yn dod i wybod nad yw’r wybodaeth hon yn gywir mwyach, byddwn yn rhoi gwybod i’r awdurdod uchod.

Mae’r awdurdod hefyd yn cadarnhau, yn rhan o’r sail dros sicrhau, cadw neu ymgeisio am drwydded tacsi / CLlP, bod yr unigolyn uchod wedi cael gwybod y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu, yn unol â’r holl ofynion data a phreifatrwydd perthnasol.

Llofnod:

Enw: ……

Swydd: ……

Dyddiad: …….